

## **Memorandwm Esboniadol Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru gyda'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

### **Eluned Morgan AS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Mawrth 2023

## **Disgrifiad**

1. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ('y Ddeddf') yn defnyddio deddfwriaeth fel dull o wella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cyflwyno dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar gyrff GIG (gan gynnwys gofal sylfaenol) yng Nghymru i fod yn agored ac yn dryloyw gyda phobl sy'n cael mwy nag ychydig o niwed wrth ddefnyddio gwasanaethau.
2. Gwneir Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Gonestrwydd") o dan y Ddeddf, ac maent yn darparu ar gyfer gweithdrefn ("y Weithdrefn Gonestrwydd") sydd i'w dilyn gan gorff GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas ag ef. Mae'r Rheoliadau Gonestrwydd hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i'r Weithdrefn Gonestrwydd. Er gwybodaeth, mae Rheoliadau 2011 yn gwneud trefniadau ar gyfer hysbysu, ystyried ac ymateb i bryderon a hysbysir gan bersonau mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan neu o dan drefniadau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.
3. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Diwygiadau 2023") yn gwneud nifer cyfyngedig o newidiadau technegol i Reoliadau 2011. Mae newidiadau technegol o'r fath yn cynnwys mynnu bod Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru yn rhwym wrth ofynion Rheoliadau 2011, a gwneud yn glir na chaiff cyrff cyfrifol ddarparu data personol i bersonau nad ydynt yn destun y data (oni bai bod y person dan sylw yn gynrychiolydd i destun y data).

## **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

4. Dim

## **Y Cefndir Deddfwriaethol**

5. Gwneir Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Gonestrwydd") o dan adran 4 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf"). Mae Adran 4 y Ddeddf yn mynnu bod rheoliadau'n darparu ar gyfer gweithdrefn ("y Weithdrefn Gonestrwydd") sydd i'w dilyn gan gorff GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas ag ef, a'i bod yn rhaid i'r

rheoliadau, fel rhan o'r Weithdrefn Gonestrwydd, ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG:

- Wrth ddod yn ymwybodol gyntaf fod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol, roi hysbysiad yn unol â'r rheoliadau i'r defnyddiwr gwasanaeth o dan sylw neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran;
- Hysbysu defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, yn unol â'r rheoliadau, am:
  - Pwy yw person sydd wedi ei enwebu gan y corff yn bwynt cyswllt ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r Weithdrefn Gonestrwydd;
  - Unrhyw ymholiadau pellach a gynhelir gan y corff mewn cysylltiad â'r amgylchiadau pan ddaeth y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol.

6. Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth hefyd:

- I'r corff gynnig ymddiheuriad;
- I ddarparu cymorth i ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n cael ei egluro yn yr hysbysiad;
- Ynghylch cadw cofnodion yn gywir.

7. Mae Adran 4(4) o'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â'r Weithdrefn Gonestrwydd y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol.

8. Mae'r Rheoliadau Gonestrwydd hefyd yn cael eu gwneud o dan adrannau 25(2) a 28(1) a (2) o'r Ddeddf.

9. Gwneir Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Diwygiadau 2023") o dan y pwerau a roddwyd gan adrannau 113(2) a (3) a 115 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, ac adrannau 1,11(2) a (3) a 12(1) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008.

10. Mae'r ddwy set o reoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

11. Prif ddiben darpariaethau'r Ddeddf yw helpu i sicrhau dull gweithredu drwy'r system gyfan o fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o'u lle. Bydd yn gwneud hyn drwy fynnu bod cyrff GIG yn dilyn proses a amlinellwyd yn y Rheoliadau Gonestrwydd:

- i. pan fydd defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael neu sydd wedi cael gofal iechyd wedi dioddef canlyniad andwyol; a
- ii. pan oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

12. Bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'n profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath. Mae'r canllawiau statudol yn rhoi arweiniad ar beth mae "*mwy nag ychydig*" yn ei olygu.

13. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno pan oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw. Rhaid i'r canlyniad felly ymwneud â'r gofal a gafodd ei ddarparu gan y corff GIG yn hytrach na'i fod yn cael ei briodoli'n llwyr i salwch neu i gyflwr isorweddol yr unigolyn. Felly, nid oes angen bod yn sicr mai'r gofal iechyd a achosodd y niwed; mae'r posibilrwydd y gallai'r gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor yn ddigon. Mae hyn yn golygu nad yw defnyddio'r ddyletswydd yn dangos bod y corff GIG wedi gweithredu'n esgeulus.

14. Mae'r darpariaethau'n gosod dyletswydd ar gyrff GIG (hynny yw, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig (ond heb gynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol ar wahân i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) a darparwyr gofal sylfaenol) ar lefel y sefydliad, ac nid ar staff gofal iechyd unigol.

15. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi, mewn rheoliadau, y weithdrefn y bydd yn rhaid i gorff GIG ei dilyn pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. Rhaid i'r weithdrefn gynnwys y darpariaethau sydd wedi'u nodi yn adran 4 o'r Ddeddf. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn gonestrwydd angenrheidiol ac yn mynnu bod corff GIG:

- Yn hysbysu'n uniongyrchol wrth ddod yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy ac yn amlinellu beth y mae'n rhaid ei gynnwys mewn hysbysiad (ee, disgrifiad o'r

amgylchiadau, ymddiheuriad, manylion y pwynt cyswllt yn y corff GIG ac ati).

- Yn gwneud hysbysiad ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith i'r hysbysiad uniongyrchol.
- Yn hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran) am ganlyniadau ymholiadau pellach a wneir mewn cysylltiad â'r amgylchiadau pan ddaeth y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol.
- Yn cyfathrebu mewn ffordd y mae'r defnyddiwr gwasanaeth (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran) yn gallu ei deall.
- Yn trefnu bod staff yn cael canllawiau a hyfforddiant perthnasol ar y weithdrefn gonestrwydd, a bod aelodau o'r staff sy'n ymwneud â chanlyniad andwyol hysbysadwy yn cael manylion cefnogaeth neu gymorth perthnasol.
- Yn cadw cofnodion ysgrifenedig ar gyfer pob canlyniad andwyol hysbysadwy.
- Yn dynodi person i fod yn gyfrifol am gynnal goruchwyliaeth strategol o'r modd y mae'r corff yn gweithredu'r weithdrefn gonestrwydd.
- Yn dynodi swyddog cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad effeithiol y weithdrefn gonestrwydd o ddydd i ddydd, ac i sicrhau bod y corff GIG yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau.

16. Mae'r Rheoliadau Gonestrwydd hefyd yn gwneud darpariaeth na chaiff y corff GIG ddatgelu unrhyw wybodaeth a fyddai'n atal unrhyw ymchwiliad neu erlyniad troseddol neu a fyddai'n mynd yn groes i unrhyw gyfyngiad ar ddatgelu, ac nad yw ymddiheuriad yn gyfystyr â chyfaddefiad o esgeulustod neu o dorri dyletswydd statudol.

17. Yn olaf, mae'r Rheoliadau Gonestrwydd hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gonestrwydd yn gweithio ar y cyd â'r trefniadau o dan Reoliadau 11, fel dileu'r gofyniad i roi gwybod i'r claf am bryder pan fydd y claf eisoes wedi cael ei hysbysu o dan y Rheoliadau Gonestrwydd.

#### Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023

18. Mae'r diwygiadau ychwanegol, anghanlyniadol a wnaed i Reoliadau 2011 yn cael eu gwneud yn bennaf oherwydd mai nod y cyfle sy'n codi gyda'r gwaith gonestrwydd yw ceisio cadw Rheoliadau 2011 mor weithredol â phosibl cyn adolygiad llawn.

19. Yn arwyddocaol, nid oedd Rheoliadau 2011 ar eu ffurf wreiddiol yn cyfeirio at yr Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru, ac er nad yw'r sefydliadau hyn yn dod i gymaint o gysylltiad â chleifion â'r darparwyr eraill, mae bwlch yn y ddarpariaeth ddeddfwriaethol o fewn y GIG yn hyn o beth. Mae'r diwygiadau anghanlyniadol yn ychwanegu holl weithgareddau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gweithgareddau Iechyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

20. Mae Diwygiadau 2023 hefyd yn gwneud darpariaeth, pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymhell bod corff GIG Cymru yn cynnig ffurf o iawn o dan Ran 6 o Reoliadau 2011, y caiff y corff GIG Cymru ymgymryd ag ymchwiliad pellach i'r pryder o dan Reoliadau 2011 dim ond at ddiben penderfynu a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli neu a all fodoli ac i gynnig ffurf o iawn yn unol ag argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallai hyn fod yn briodol pan fydd gwybodaeth ychwanegol ar gael yn dilyn ymchwiliad gan yr Ombwdsmon er enghraifft, sy'n golygu y gallai'r digwyddiad fod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer iawn.

21. Mae diwygiadau eraill yn cael eu hystyried yn rhai technegol, ac yn cynnwys diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaethau eraill fel GDPR. Gwneir y newidiadau hyn er mwyn gwneud y Rheoliadau a'r canllawiau Gweithio i Wella mor hawdd eu defnyddio â phosibl.

## **Ymgynghoriad**

22. Wrth ddatblygu'r Rheoliadau Gonestrwydd a Rheoliadau Diwygiadau 2023, cynhaliodd y tîm gweithredu gyfres o weithdai rhanddeiliaid a oedd yn ceisio datblygu syniadau polisi ar elfennau allweddol o'r rheoliadau ac ar gyfer y canllawiau statudol. Cynhaliwyd pedwar gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid y GIG a grŵp ffocws ar gyfer y cyhoedd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2021, gyda dros 70 o randdeiliaid yn bresennol.

23. Hefyd, mae'r rhaglen wedi cael ei goruchwyllo gan Fwrdd Gweithredu (a oedd yn arfer cael ei alw'n Grŵp Llywio) sy'n cynnwys rhanddeiliaid y GIG a Llywodraeth Cymru, o dan gadeiryddiaeth un o uwch swyddogion gweithredol y GIG. Yn ogystal â goruchwyllo'r cynnyrch datblygu, mae'r bwrdd hefyd wedi bod yn allweddol er mwyn cynnwys persbectif allweddol y GIG.

24. Cynhaliwyd [ymgynghoriad cyhoeddus](#) 12 wythnos ar y Rheoliadau Gonestrwydd, Rheoliadau Diwygiadau 2023, Canllawiau Statudol y Rheoliadau Gonestrwydd a diwygiadau i'r canllawiau ar gyfer Rheoliadau 2011. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 17 Rhagfyr (2022). Cafodd yr ymgynghoriad 135 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid

cyhoeddus, rhanddeiliaid y trydydd sector a rhanddeiliad y GIG. Yn dilyn yr ymgynghoriad gwnaed llawer o newidiadau i'r diwygiadau arfaethedig, a nodwyd isod.

### **Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023**

25. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys (i) y weithdrefn gonestrwydd a (ii) diwygiadau i Reoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") a wneir o ganlyniad i'r weithdrefn gonestrwydd.

(i) Y weithdrefn gonestrwydd

**26. Diwygio rheoliad 4(3)(a):** wedi ychwanegu cyfeiriad at y "person perthnasol".

**Rheswm dros ddiwygio:** er mwyn dangos yn glir bod rhaid i'r corff cyfrifol roi disgrifiad o amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy, i'r graddau y mae'r corff cyfrifol yn ymwybodol o'r ffeithiau ar ddyddiad darparu'r hysbysiad "i'r person perthnasol".

**27. Diwygio rheoliad 4(3)(e):** wedi dileu'r cyfeiriad at "hadolygu".

**Rheswm dros ddiwygio:** roedd y gair "hadolygu" yn ddiangen yn y ddarpariaeth honno.

**28. Diwygio rheoliad 5(2):** dylid gwneud yr hysbysiad ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl yr hysbysiad uniongyrchol, yn hytrach na 2 ddiwrnod gwaith.

**Rheswm dros ddiwygio:** er mwyn rhoi mwy o amser i gyrff GIG ymateb yn unol ag adborth rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad, ac i ddangos yn glir bod y terfyn amser ar gyfer gwneud yr hysbysiad ysgrifenedig yn cychwyn 'ar ôl' dyddiad yr hysbysiad uniongyrchol.

(ii) Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2011

**29. Diwygio rheoliad 12(7) o Reoliadau 2011:** mae'r rheoliad hwn bellach yn cynnwys cyfeiriad at "yn unol â Rhan 5", a hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gynrychiolydd y claf.

**Rheswm dros ddiwygio:** mae'r geiriad presennol yn rheoliad 12(7) eisoes yn cyfeirio at "yn unol â Rhan 5", ac felly mae'r diwygiad wedi cael ei wneud er mwyn bod yn gydnaws â'r geiriad blaenorol. Mae'r cyfeiriad at gynrychiolydd y claf wedi'i wneud i adlewyrchu y gallai cynrychiolydd fod yn gweithredu ar ran y claf.

**30. Diwygio rheoliad 22(1) o Reoliadau 2011:** dylai'r gofyniad i gydnabod yr hysbysiad o'r pryder gael ei wneud yn awr o fewn 5 diwrnod gwaith "ar ôl y diwrnod y mae'r corff cyfrifol yn ei gael", yn hytrach na 2 ddiwrnod gwaith.

**Rheswm dros ddiwygio:** er mwyn bod yn gydnaws â'r 5 diwrnod gwaith ar gyfer gwneud yr hysbysiad ysgrifenedig o dan y weithdrefn gonestrwydd.

**31. Ychwanegu rheoliad newydd, 22(7), at Reoliadau 2011, a diwygio rheoliad 22(6) o Reoliadau 2011:** darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn glir nad oes gofyniad i anfon copi o'r hysbysiad o bryder at y claf (neu ei gynrychiolydd) pan fydd eisoes wedi cael hysbysiad uniongyrchol a hysbysiad ysgrifenedig o dan y weithdrefn gonestrwydd. Mae rheoliad 22(6) yn cael ei ddiwygio er mwyn gwneud yn glir ei fod yn ddarostyngedig i reoliad 22(7) o Reoliadau 2011.

**Rheswm dros ddiwygio:** er mwyn atal hysbysiad dyblyg i glaf (neu ei gynrychiolydd) os yw eisoes wedi cael hysbysiad uniongyrchol a hysbysiad ysgrifenedig, yn enwedig pan fu profedigaeth er enghraifft. Hefyd, er mwyn gofalu nad yw cleifion (a'u cynrychiolwyr) yn cael honiadau di-sail o ganlyniad i gofnod Datix cyn ymchwiliad. Mae'r egwyddor o fod yn dryloyw yn cael ei chyflawni drwy'r hysbysiad uniongyrchol a'r hysbysiad ysgrifenedig o dan y weithdrefn gonestrwydd.

**32. Dileu diwygiadau i reoliadau 24, 26 a 33 o Reoliadau 2011:** yn ystod yr ymgynghoriad, bu swyddogion yn ymgynghori ar ddiwygio rheoliadau 24, 26 a 33 o Reoliadau 2011 fel bod y terfyn amser ar gyfer, er enghraifft, anfon ymateb i ymchwiliad yn cychwyn ar ddyddiad yr hysbysiad uniongyrchol os yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno. Mae'r diwygiadau hyn wedi cael eu dileu, a'r drafft gwreiddiol yn rheoliad 24, 26 a 33 wedi'i adfer fel bod y terfynau amser yn cychwyn ar "y diwrnod y mae'r corff cyfrifol yn cael ei hysbysu o'r pryder".

**Rheswm dros ddileu'r diwygiad:** Dylai'r terfynau amser gychwyn ar yr un adeg/ar yr adeg gyfatebol – hynny yw, "y diwrnod y mae'r corff cyfrifol yn cael yr hysbysiad o bryder" – boed y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno ai peidio.

### **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

**33.** Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys diwygiadau "eraill" i Reoliadau 2011 nad ydynt yn ganlyniadol i'r ddyletswydd gonestrwydd.

**34. Diwygio rheoliad 14(1)(c) o Reoliadau 2011:** pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymhell bod y corff GIG Cymru yn cynnig ffurf o iawn o dan Ran 6 o Reoliadau 2011, caiff y corff GIG Cymru ymgymryd ag ymchwiliad pellach i'r pryder o dan Reoliadau 2011 dim ond at ddiben penderfynu a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli neu a all fodoli ac i gynnig ffurf o iawn yn unol ag argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Rheswm dros ddiwygio:** mae hyn yn caniatáu i'r corff GIG, yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac argymhelliad yn yr adroddiad dilynol, ailystyried mater ar gyfer iawn. Gallai hyn fod yn briodol os bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er enghraifft, sy'n golygu y gallai'r digwyddiad fod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer iawn. Mae hyn yn galluogi'r claf i gael cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol am ddim, cefnogaeth ac ymddiheuriad. Mae hefyd yn caniatáu setliad iawn yn hytrach nag ymglyfreitha pellach hirfaith, sydd o fudd i'r GIG.



**35. Dileu diwygiadau i reoliad 29 o Reoliadau 2011:** yn ystod yr ymgynghoriad, roeddem wedi ymgynghori ar ddileu rôl Gweinidogion Cymru wrth bennu lefel yr iawndal am boen, dioddefaint a cholli amwynder o dan Reoliadau 2011. Mae hyn yn adfer y darpariaethau yn rheoliadau 29(4) a (5) fel bod Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i ddyroddi tariff digolledu, ac os byddant yn dyroddi tariff yn y dyfodol, y bydd cyrff GIG Cymru yn ei ddefnyddio at ddibenion canllaw wrth ystyried swm y digollediad ariannol sydd i'w gynnig.

**Rheswm dros ddileu'r diwygiad:** er bod y tariff presennol wedi'i dynnu'n ôl, mae'n well cadw pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi tariff pe bai Gweinidogion Cymru yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

36. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal ar gyfer y Rheoliadau Gonestrwydd<sup>1</sup> a Rheoliadau Diwygiadau 2023<sup>2</sup>, ac mae'n dilyn isod.

37. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Rheoliadau nac yn Niwygiadau 2023 sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

### Costau gweinyddu

38. Mae'r broses o weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cynnwys llawer o gostau gweinyddol i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â datblygu a chyhoeddi canllawiau, deunyddiau ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer y dyletswyddau hynny. Mae costau cyfle hefyd i'r GIG wrth ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant. Mae llawer o'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a luniwyd ar gyfer y Ddeddf, ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn yr Asesiad hwn oni bai fod y rhagdybiaethau wedi newid yn sylweddol. Daw'r Rheoliadau Gonestrwydd i rym ym mis Ebrill 2023, a bydd costau rhaglen / gweithredu a fydd yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

### Arbedion Cost

39. Mae egwyddorion 'Bod yn agored' yn cael eu datblygu ymhellach drwy gyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd statudol, a allai arwain at arbedion yn sgil llai o gwynion, ac mae'n bosibl y bydd modd osgoi ymgyfreitha pan fydd digwyddiadau sy'n arwain at niwed. Yn ôl Holden, J (2009)<sup>3</sup>, anaml y mae ymddiheuro a rhoi esboniad i glaf neu aelod o'r teulu yn gwneud drwg, ac mae'n aml yn gallu osgoi cwyn.

40. Fel rhan o adolygiad gan West, M a Coia, D (2019)<sup>4</sup>, edrychwyd ar greu diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu yn y GIG. Bu'r adolygiad yn edrych ar y Diwylliant o Ddysgu ac o Degwch yn Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Mersey Care, a oedd yn ceisio creu amgylchedd lle'r oedd y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a'u grymuso i ddysgu pan fydd pethau'n mynd o'u lle,

---

<sup>1</sup> Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, 2023, Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023.

<sup>2</sup> Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, 2023, Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011

<sup>3</sup> Holden, J. (2009) [Saying sorry is not the same as admitting legal liability | The BMJ](#), 338

<sup>4</sup> West, M., Coia, D., (2019) [caring-for-doctors-caring-for-patients\\_pdf-80706341.pdf \(gmc-uk.org\)](#)

yn hytrach na theimlo eu bod yn cael eu beio. Mae'r dull hwn o weithredu wedi arwain at 75% yn llai o ymchwiliadau disgyblu ers 2016, a 92% yn llai o achosion atal o'r gwaith. Gwnaed £2.5 miliwn o arbedion yn ôl amcangyfrifon yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i lefelau cynhyrchiant uwch, llai o gostau cyflenwi yn sgil atal staff o'r gwaith, llai o amser i gynnal ymchwiliad a llai o gostau cyfreithiol a therfynu.

41. Gall ymdrechion i amcangyfrif yr effaith a'r arbedion posibl yng nghyswllt ymgyfreitha fod yn ddefnyddiol, ond oherwydd diffyg data ac ymchwil, mae'r canfyddiadau posibl yn gyfyngedig. Felly does dim arbedion cost wedi cael eu meintoli, a dydyn ni'n dal ddim yn gwybod beth yw'r rhan fwyaf o'r arbedion hynny.

### **Costau Cydymffurfio**

42. Bydd costau cydymffurfio â'r Rheoliadau Gonestrwydd yn cael eu hysgwyddo gan gyrff GIG ar ffurf costau cyfle i gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae cost cyfle i gyrff GIG ar gyfer hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran) cyn gynted ag y daw'r corff yn ymwybodol bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno. Mae gofynion y Rheoliadau Gonestrwydd yn cyd-fynd yn agos â Rheoliadau 2011 (sy'n cynnwys y weithdrefn "Gweithio i Wella") lle mae'n rhaid hysbysu defnyddwyr gwasanaeth am gwynion a digwyddiadau. Mae cyflwyno'r ddyletswydd ynghyd â gofynion y weithdrefn Gweithio i Wella yn Rheoliadau 2011 sydd eisoes ar waith yn golygu ei bod yn anodd iawn amcangyfrif yr effaith debygol gyda chyrrff GIG. At ddibenion yr asesiad effaith hwn, mae'r gost cyfle ar gyfer cydymffurfio wedi cael ei chyfrifo ar sail nifer y digwyddiadau a gofnodwyd, heb gynnwys cwynion.

### **Manteision**

43. Disgwylir i'r Rheoliadau Gonestrwydd arwain at amrywiaeth o fanteision, ond does dim modd eu meintoli oherwydd lefel uchel o amrywioldeb neu ddiffyg data. Er enghraifft, bydd gwella ansawdd a chael diwylliant mwy agored a thryloyw yn y ddarpariaeth iechyd yn arwain at fanteision.

### **Rhagdybiaethau**

44. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae amrywiaeth eang o ddata gwasanaeth, ystadegol rheolaidd ac academaidd wedi cael eu defnyddio wrth asesu costau a manteision. Pan oedd ansicrwydd, cafodd yr amcan gostau eu cyfrifo'n geidwadol. Mae hyn yn debygol o olygu y gallai'r costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth fod yn is mewn rhai ardaloedd. Mewn nifer o leoedd, pan oedd ansicrwydd, mae amrywiaeth o gostau posibl wedi cael eu defnyddio neu'r rhesymeg pam na fyddai amrywiaeth o gostau wedi bod yn arwyddocaol.

## 7. Yr opsiynau

45. I asesu'r costau a'r manteision, mae cyfnod arfarnu o chwe blynedd wedi cael ei ddewis, gan fod disgwyl i gostau a manteision y Rheoliadau Gonestrwydd ddod yn sefydlog yn gyflym. Mae'r costau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf, felly mae'n bosibl na fydd rhai o'r cyfansymiau yn y tabl yn dod i union swm oherwydd y talgrynnu.

46. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi'r amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Rheoliadau a Diwygiadau 2023 ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar waith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Er hynny, bu'n rhaid gwneud cyfres o ragdybiaethau er mwyn cwblhau'r cyfrifiadau. Mae unrhyw ragdybiaethau a wnaed yn cael eu hesbonio yn y naratif.

# DYLETSWYDD GONESTRWYDD

## YR OPSIYNAU

47. Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi a'u hystyried:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim

**Opsiwn 2:** Gwneud y Rheoliadau Gonestrwydd a Diwygiadau 2023

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

### Disgrifiad

48. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw ddyletswydd gonestrwydd statudol yn berthnasol i ddarparwyr y GIG. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau â'r gofynion bod yn agored a amlinellwyd yn Rheoliadau 2011 ar eu ffurf bresennol (y broses delio â phryderon yn GIG Cymru), a'r dyletswyddau gonestrwydd anstatudol sy'n berthnasol i amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel rhan o'u cofrestriadau proffesiynol sy'n cefnogi bod yn agored a thryloyw pan fydd pethau'n mynd o'u lle.

### Costau

49. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Manteision

50. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol o wneud dim, a byddai cyfle'n cael ei gollu i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud. Yn achos lleoliadau gofal cymdeithasol rheoledig, mae 'dyletswydd gonestrwydd' eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<sup>5</sup>, felly ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu dull gweithredu unedig ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer gonestrwydd. Yn achos cyrff GIG, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y system<sup>6</sup> sy'n atal gonestrwydd. Ar wahân i hynny, mae disgwyliad ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn dilyn yr ymrwymiad ym

---

<sup>5</sup> Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Llundain: HMSO

<sup>6</sup>Waring, J. Beyond blame: cultural barriers to medical incident reporting. *Social Science & Medicine* [Y Rhyngwryd]. 2005;60(9):1927-1935. Ar gael yn: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0277953604004666>

Maniffesto 2016 Llafur Cymru<sup>7</sup> i ofalu bod trefniadau Cymru yn cyd-fynd â rhannau eraill o'r DU. Wrth wneud dim, ni fyddai'r manteision o greu'r ddyletswydd yn cael eu gwireddu, gan gynnwys y sicrwydd y byddai hynny'n ei roi i ddefnyddwyr gwasanaethau'r GIG a staff a ddaw i Gymru o rannau eraill o'r DU y byddai cyrff GIG yn sicrhau ymateb agored, gonest a chefnogol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

51. Felly, nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni bwriad y polisi.

## **Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau Gonestrwydd a Rheoliadau Diwygiadau 2023.**

### **Disgrifiad**

52. Byddai'r opsiwn hwn yn cychwyn y ddyletswydd gonestrwydd statudol ar gyrff GIG i roi gwybodaeth a chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth pan fydd digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch claf yn arwain at ganlyniad andwyol. Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i gyrff GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (y ddau Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru, ond nid yw'n cynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol ar wahân i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) a darparwyr gofal sylfaenol.

53. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cyflwyno'r Rheoliadau Gonestrwydd sy'n nodi'r gofynion a roddir ar gyrff GIG wrth iddynt ymateb i berson sydd wedi dioddef canlyniad andwyol. Byddai hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol ac ychwanegol i Reoliadau 2011 i wneud yn siŵr ei fod yn gydnaws â'r ddyletswydd newydd. Mae Rheoliadau Diwygiadau 2023 hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau 2011, fel mynnu bod yr Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru yn rhwym wrth y broses Gweithio i Wella yn Rheoliadau 2011.

54. Bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol pan fydd defnyddiwr gwasanaeth sydd wedi derbyn gofal iechyd wedi dioddef canlyniad andwyol sydd wedi arwain, neu a allai arwain, at fwy nag ychydig o niwed a phan oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor.

---

<sup>7</sup> Llafur Cymru. Gyda'n Gilydd dros Gymru – Maniffesto Llafur Cymru [Y Rhynggrwyd]. 2016. Ar gael yn:

<https://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/570cee006a21db36c7000001/attachments/original/1461022041/MANIFFESTO-LLAFUR-CYMRU.pdf?1461022041>

55. Pan fydd y ddyletswydd yn berthnasol, bydd yn rhaid i gyrff GIG ddilyn y weithdrefn sydd wedi'i nodi yn y Rheoliadau Gonestrwydd. Bydd y weithdrefn yn mynnu bod y corff GIG yn hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd pan ddaw'n ymwybodol o'r digwyddiad er mwyn rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd beth sydd wedi digwydd yn ôl dealltwriaeth y corff GIG, egluro beth fydd yn digwydd nesaf, ymddiheuro a chynnig cymorth.

56. Bydd yn rhaid i gyrff GIG roi adroddiad blynyddol ar y ddyletswydd. Bydd yn rhaid i'r adroddiad egluro a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi bod yn berthnasol yn ystod y flwyddyn, pa mor aml, disgrifio amgylchiadau pob achos yn gryno, a disgrifio'r camau a gymerwyd gan y darparwr gyda'r bwriad o atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

### **Costau:**

57. Dylai fod gan Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol drefniadau ar waith yn barod i fodloni gofynion presennol yr egwyddorion bod yn agored yn Rheoliadau 2011. Felly, mae'r adnoddau y mae eu hangen ar gorff GIG i weithredu'r ddyletswydd yn debygol o amrywio yn ôl aeddfedrwydd ei drefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd angen i bob darparwr sicrhau bod ei staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd newydd a, lle bo'n briodol, wedi cael eu hyfforddi'n briodol i gyflawni'r ddyletswydd. Bydd angen ysgrifennu neu ddiwygio polisïau a gweithdrefnau hefyd. Bydd hefyd yn hollbwysig gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei ddisgwyl os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u gofal iechyd.

58. Yn achos Awdurdodau Iechyd Arbennig bydd costau gweithredu tebyg, fel adolygu polisi a hyfforddiant, ond disgwylir i'r costau cydymffurfio fod yn fach iawn gan mai dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu, neu wedi cael ei ddarparu, y mae'r ddyletswydd yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Awdurdodau Iechyd Arbennig y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn deall y canllawiau, a sut mae'r canllawiau'n berthnasol iddyn nhw, mewn perthynas â'r nifer bach o achosion lle mae'r canllawiau'n debygol o fod yn berthnasol.

### **Ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymorth**

59. I weithredu'r ddyletswydd a'r Rheoliadau'n llwyddiannus, mae angen gweithredu mewn dwy elfen allweddol:

- i. ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd;
- ii. hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y sefydliad

**Disgrifiad** – mae'r ddwy elfen yn cael eu hegluro isod yn eu tro:

**i. Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd:**

60. Roedd adborth rhanddeiliaid yn adlewyrchu pwysigrwydd ymgyrch i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Byddai ymgyrch yn ceisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddyletswydd gonestrwydd, a fydd yn galluogi unigolion i ofyn cwestiynau am y gofal a'r gwasanaethau maent yn eu derbyn, gan wybod y gallent ddisgwyl ymddygiad agored a thryloyw os byddant yn dioddef canlyniad andwyol a allai arwain at niwed.

61. Bydd dwy elfen i ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd – fideo ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd gonestrwydd y gellir ei ddefnyddio ar lwyfannau cymdeithasol a digidol, a thaflen sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd.

62. Bydd y rhaglen yn dosbarthu taflenni i gyrrff GIG i ddechrau, a fydd yn cael eu cyfieithu i ddechrau i'r 16 iaith a argymhellir. Gyda chymorth timau cyfathrebu Llywodraeth Cymru, bydd y deunyddiau hyn yn cael eu hyrwyddo'n effeithlon i'r cyhoedd drwy sianeli cymdeithasol a digidol Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill a mis Mai 2023.

**ii. Datblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y Sefydliad:**

63. Addysg a hyfforddiant yw'r allwedd i annog gonestrwydd a'i wneud yn bosibl. Felly, mae symud cyrrff GIG ymlaen i sefyllfa lle maent yn agored ac yn dryloyw yn eu hymateb ac fel mater o drefn gyda defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le yn debygol o olygu cyfuniad o ddatblygiad a hyfforddiant ymwybyddiaeth, cyfathrebu ac arweinyddiaeth. I ategu hyn, mae'n debygol y bydd angen cyfuniad o wahanol gyfleoedd dysgu a hyfforddiant ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr Gofal Sylfaenol:

**64. Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff – a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:** Bydd y fideo ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd gonestrwydd yn cynnwys lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gonestrwydd ar gyfer holl staff y GIG, a help i greu diwylliant o fod yn agored lle mae staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth i fynegi pryderon. Tri munud yw hyd y fideo hwn, ac felly rhagdybir y bydd



modd ei wyllo fel rhan o'r amser hyfforddiant presennol, ac na fydd yn creu costau cyfle ar gyfer amser staff.

**65. Hyfforddiant uwch i dîm pryderon, staff arbenigol:** Gan adeiladu ar yr hyfforddiant cyffredinol uchod ar ymwybyddiaeth, bydd angen hyfforddiant manylach ar unigolion allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig er mwyn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen pan ddaw'r ddyletswydd i rym.

66. Y bwriad yw y bydd yr hyfforddiant hwn yn adeiladu ar y dull gweithredu a ddatblygwyd wrth gyflwyno Gweithio i Wella yn 2011<sup>8</sup>. Roedd yn mynnu bod sefydliadau'n enwi arweinwyr barn rheolaethol, nyrsio a chlinigol i hyrwyddo dull gweithredu 'Bod yn Agored'. Mae fideo addysg a hyfforddiant wedi cael ei baratoi ar gyfer timau arbenigol a datblygu arweinwyr ar ddull gweithredu Gweithio i Wella. Mae'r hyfforddiant hwn yn 60 munud o hyd, ac felly'n cael ei ystyried yn gost cyfle ar gyfer amser staff yn y GIG.

**67. Gofal Sylfaenol – hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff:** Bydd yr un deunyddiau hyfforddi ar gael ar gyfer gofal sylfaenol, gyda'r mwyafrif o'r staff yn gorfod gwyllo'r fideo ymwybyddiaeth.

**68. Arweinwyr cwynion/rheolwyr practis gofal sylfaenol:** I helpu practisau gofal sylfaenol i weithredu'r ddyletswydd, bydd y fideo addysg a hyfforddiant ar gael yn ei gyfanrwydd i bersonél cwynion / pryderon, rheolaethol ac arweinyddiaeth.

**69. Hyfforddiant ar lefel Bwrdd:** I ategu ac ymwreiddio egwyddorion bod yn agored a thryloyw ymysg darparwyr gwasanaethau'r GIG; i helpu staff i gyflawni'r ddyletswydd; ac i ategu'r newidiadau ehangach sydd eu hangen o ran ymddygiad, diwylliant ac arweinyddiaeth i weithredu'r ddyletswydd, bydd angen hyfforddiant ar Aelodau Bwrdd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod Aelodau Bwrdd yn hyderus yn eu gallu i gael sicrwydd bod y sefydliad yn gwneud digon i ddysgu o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chleifion, ac yn defnyddio'r gwersi a ddysgir i wella gwasanaethau.

---

<sup>8</sup> Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (OS 2011/704). Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/704/contents/made>

70. Mae tîm y rhaglen eisoes wedi darparu, ar gyfartaledd, sesiwn ymwybyddiaeth 30 munud i holl aelodau neu uwch dimau rheoli a byrddau cyrff GIG rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023. Gan fod y gost hon wedi cael ei hwynebu'n barod mae'n cael ei hystyried yn gost suddedig, ac nid yw'n cael ei chynnwys yn y dadansoddiad hwn. Hefyd, bydd disgwyl i aelodau bwrdd corff GIG wyllo'r fideo addysg a hyfforddiant yn ei gyfanrwydd.

71. **Costau** – mae'r tair elfen (gweinyddu, ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd, a hyfforddiant) yn cael eu costio isod yn eu tro:

72. Rhagwelir y bydd y costau, oni nodir yn wahanol, i'w hwynebu yn 2022 – 23 neu 2023 – 24. Mae amser, pan fydd wedi'i nodi, yn cyfeirio at nifer y diwrnodau gwaith.

### **Materion Gweinyddol**

73. Oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn a'r angen i'r broses o weithredu'r ddyletswydd gael ei symud i'r GIG, cafodd strwythur y rhaglen ei addasu gan dîm y rhaglen ddiwedd 2022. Arweiniodd hynny at sefydlu'r Bwrdd Gweithredu newydd i gynrychioli'r holl gorff GIG y mae hyn yn effeithio arnynt, yn ogystal â symud yr adnoddau gweithredu i Gronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Pwrpas hynny oedd mynd ati'n fwiadol i alluogi'r GIG i oruchwylio a chymryd perchnogaeth dros y broses weithredu, yn ogystal â chydabod rôl Cronfa Risg Cymru yn y broses Gweithio i Wella a'r cysylltiad rhwng gonestrwydd a Gweithio i Wella.

74. I gefnogi'r gwaith hwn, cytunodd Llywodraeth Cymru i ariannu rhai agweddau ar y broses o sefydlu Cronfa Risg Cymru am 6 mis ar ôl mis Ebrill 2023, fel y nodir isod:

Tabl 1 – Costau Staff Cronfa Risg Cymru

Rôl	Cost Flynyddol	Amcangyfrif o'r amser sydd ei angen	Cost
Band 8b AfC	£90,144*	6 mis	£45,100
Band 7 AfC	£58,932	6 mis	£29,500
<b>Cyfanswm</b>			<b>£74,600</b>

\*yn seiliedig ar y gwariant gwirioneddol ar gyfer yr un rôl yng nghyflogau gros 2022/23, gan gynnwys argostau neu gyflog cyfartalog ar fand cyflog AfC perthnasol y GIG

75. Yn ychwanegol at yr uchod, mae arweinydd clinigol wedi cael secondiad i'r rhaglen i helpu i weithredu'r ddyletswydd yn y GIG. Mae'r secondai yn uwch arbenigwr nyrsio sy'n darparu cymorth i'r rhaglen a phersbectif clinigol hanfodol.

Tabl 2 – Costau Tîm y Rhaglen

Rôl	Cost Flynyddol	Amcangyfrif o'r amser sydd ei angen	Cost
Band 9 AfC	£168,246 <sup>(i)</sup>	4 mis	<b>£48,000</b>
Rheolwr y Rhaglen / gradd 7 – Cost Cyfle	£86,731 <sup>(ii)</sup>	0.3 Cyfwerth ag Amser Cyflawn 5 mis	<b>£10,800</b>

<sup>(i)</sup> ar sail cost flynyddol ar fand cyflog AfC perthnasol y GIG, gan gynnwys argostau a TAW

<sup>(ii)</sup> ar sail cost flynyddol gyfartalog

76. Yn ychwanegol at yr uchod, mae costau'n gysylltiedig â phob elfen sy'n benodol i'r broses gyflawni. Mae costau dylunio a chyfieithu yn dibynnu ar gymhlethdod a gofynion terfynol y cynnyrch. Mae amcangyfrif o'r costau wedi'i amlinellu isod:

i. **Ymgyrch Ymwybyddiaeth y Cyhoedd:**

Tabl 3 – datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd

Gweithgaredd	Cost
Ymgyrch cyhoeddusrwydd	£14,300 <sup>(i)</sup>
Creu a mastro canllawiau sain a Braille <sup>(iii)</sup>	£1,000
Costau argraffu, gan gynnwys taflen hawdd ei deall, fersiwn i blant <sup>(iii)</sup>	£6,200
Dosbarthu <sup>(iv)</sup>	£2,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>£23,500</b>

<sup>(i)</sup> Yn yr un modd â chostau'r ymgyrch cyfathrebu â'r cyhoedd a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno elfen gweithdrefnau arbennig Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017<sup>9</sup>, yn ogystal ag amcangyfrifon o'r costau cyfieithu a phrawfddarllen.

<sup>(ii)</sup> Ar sail cyfieithu, dylunio a theiposod taflen Gweithio i Wella – tua 600 gair.

<sup>9</sup> Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – ar gael: [Deddf Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\) 2017 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

(iii) Ar sail costau aiddylunio taflen Gweithio i Wella yn 2017, a oedd yn cynnwys cynhyrchu 10 disg sain, 10 copi braille, fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i blant.

(iv) Ar sail cost dosbarthu 106,700 o daflenni Gweithio i Wella yn 2017.

## ii. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff:

77. Mae'r gost o ddatblygu, prawfddarllen a chyfieithu'r deunyddiau hyfforddi wedi'i chynnwys yng nghostau staff Cronfa Risg Cymru.

78. Yn unol â'r uchod, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cadarnhau y byddai'r modiwlau e-ddysgu yn cael eu llwytho i fyny a'u cynnal ar-lein heb unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru.

79. Byddai'r canllawiau'n cael eu hadnewyddu bob pum mlynedd, gyda'r gost gyntaf yn 2028-29. Dyma amcangyfrif o'r gost cyfle sy'n gysylltiedig â'r broses hon i adnewyddu'r canllawiau:

Tabl 4 – cost cyfle ar gyfer adnewyddu'r canllawiau statudol

Gweithgaredd	Gradd <sup>(ii)</sup>	Amser	Amcangyfrif o'r gost cyfle <sup>(iii)</sup>
Cost cyfle – adnewyddu canllawiau	gradd 7	10 diwrnod	£3,900
Cost cyfle – dylunio a theiposod <sup>(i)</sup>	Swyddog Gweithredol	2 ddiwrnod	£400
Cost cyfle – cyfieithu a phrawfddarllen <sup>(i)</sup>	Swyddog Gweithredol Uwch	7.5 diwrnod	£1,800
<b>Cyfanswm</b>			<b>£6,100</b>

(i) Amcangyfrifir y byddai'r costau dylunio a chyfieithu'n dod i hanner y costau gwreiddiol oherwydd nifer y diwygiadau angenrheidiol.

(ii) ar sail cost flynyddol gyfartalog

(iii) Ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, rhagdybir 220 o ddiwrnodau gwaith y flwyddyn

80. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad, gan mai dim ond yn electronig y byddai'n cael ei lunio.

## Cost cyfle ar gyfer Hyfforddiant:

81. Mae cost cyfle yn gysylltiedig â staff ac aelodau bwrdd yn gwneud hyfforddiant – mae'r costau hyn wedi cael eu nodi isod a'u cyfrifo yn Nhabl 5. Mae'r amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r rheini a fydd yn derbyn

yr hyfforddiant wedi'i gyfrifo ar sail nifer yr oriau staff a fydd yn cael eu treulio ar yr hyfforddiant, wedi'i luosi â'r gost fesul awr gyfartalog. Mae'r amcangyfrif o'r costau cyfle wedi'i nodi yn y tabl isod. Nid yw hyn yn ystyried y ffaith y byddai llawer o'r staff, os na fyddent yn gwneud yr hyfforddiant hwn, yn cael hyfforddiant arall o ryw fath fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol.

82. Mae'r amcangyfrif isod o'r costau cyfle yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

**83. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol i'r Holl Staff – a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:** Yn ôl yr amcangyfrif, byddai angen darparu'r hyfforddiant hwn i oddeutu 91,404<sup>10</sup> o unigolion (staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru ar 30 Medi 2022). Amcangyfrifir mai 3 munud fydd hyd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth yma, ac y bydd yn cael ei wyllo yn ystod cyfarfodydd tîm neu hyfforddiant sydd eisoes yn digwydd, ac mae felly'n gost cyfle.

**84. Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff – gofal sylfaenol:** Yn ôl yr amcangyfrif, byddai'r hyfforddiant e-ddysgu yn cael ei ddarparu i oddeutu 7,511<sup>11</sup> o unigolion, bydd yn cymryd tua 3 munud fel person ac yn cael ei wyllo yn ystod cyfarfodydd tîm neu hyfforddiant sydd eisoes yn digwydd, ac mae felly'n gost cyfle.

**85. Hyfforddiant Uwch i Dimau Pryderon / Arbenigol** Yn ôl yr amcangyfrif, bydd angen darparu'r hyfforddiant hwn i oddeutu 4,500 o bobl ar draws cyrff GIG, a bydd yn cymryd tua 60 munud fel person. Mae ffigur y gweithlu'n seiliedig ar wybodaeth a gafwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau mewn perthynas â nifer y staff sy'n delio â phryderon, digwyddiadau, gan gynnwys uwch staff clinigol. Rhagdybiwyd 500 o bobl fesul bwrdd iechyd, 250 fesul ymddiriedolaeth / Awdurdod Iechyd Arbennig.

---

<sup>10</sup> [Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 30 Medi 2022 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>11</sup> Ar sail 1,410 o staff nad ydynt yn Ddoctoriaid mewn practisau cyffredinol [Staff eraill y practisau \(cyfrif pennau\) yn ôl band oedran a bwrdd iechyd lleol \(llyw.cymru\)](#) 2,310 o Feddygon Teulu [Gweithlu practis cyffredinol: ar 30 Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU](#)

956 o optometryddion [Iechyd synhwyrdd \(ystadegau gofal llygaid a chlyw\): Ebrill 2019 i Fawrth 2021 | LLYW.CYMRU](#)

1,420 o ddeintyddion [Gwasanaethau deintyddol GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU](#)

1,424 o staff fferyllol ar sail 712 o fferyllfeydd a 2 fesul fferyllfa [Fferyllfeydd cymunedol yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

**86. Arweinwyr cwynion/rheolwyr practis gofal sylfaenol:** Yn ôl yr amcangyfrif, bydd y gweithdai ar gyfer arweinwyr cwynion/rheolwyr practis gofal sylfaenol yn cael eu darparu i oddeutu 2,526<sup>11</sup> o unigolion, ac yn cymryd tua 60 munud fesul person. Ar sail sgysiau ag arweinwyr polisi a phroffesiynol, rhagdybir mewn lleoliadau deintyddol, optometreg a phracticisau cyffredinol mai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fyddai'n debygol o ffonio cleifion i gael sgysiau gonest.

**87. Hyfforddiant ar Lefel Bwrdd:** Byddai angen darparu'r hyfforddiant hwn i oddeutu 240 o unigolion (ar sail aelodaeth Bwrdd ym mis Ionawr 2023), a byddai'r hyfforddiant hwn yn cymryd tua 60 munud fesul person.

Tabl 5 – costau cyfle hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y sefydliad

Carfan	Nifer y staff	Oriau o hyfforddiant fesul person	Cyfradd fesul awr gymedrig	27% o gynnydd i gynrychioli 'argostau' <sup>(i)</sup>	Amcangyfrif o'r gost cyfle
Hyfforddiant uwch i dîm pryderon ac arbenigol	4,500	1	£29.25 <sup>(ii)</sup>	£7.90	£167,200
Ymwybyddiaeth sylfaenol yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol	91,404	3 munud	£18.10 <sup>(iii)</sup>	£4.89	£105,100
Arweinwyr cwynion / rheolwyr practis gofal sylfaenol:	2,526	1	£22.98 <sup>(iv)</sup>	£6.21	£73,700
Ymwybyddiaeth sylfaenol yr holl staff gofal sylfaenol	7,511	3 munud	£18.10 <sup>(iii)</sup>	£4.89	£8,600
Hyfforddiant ar lefel bwrdd	240	1	£41.44 <sup>(v)</sup>	£11.19	£12,600
<b>Cyfanswm</b>					<b>£367,200</b>

(i) Yn unol â chyngor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol-Cyllid Llywodraeth Cymru, mae 27% o gynnydd canrannol wedi cael ei gynnwys gan nad yw'r ffigurau sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys argostau.

(ii) Mae'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2022 (dros dro) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £29.25 oedd y cyflog fesul awr cymedrig (heb gynnwys goramser) ar gyfer cyfarwyddwyr a rheolwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;

- (iii) Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2022 (dros dro) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £18.10 oedd y cyflog fesul awr cymedrig (heb gynnwys goramser) ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ddefnyddio fel cyfartaledd ar gyfer y gweithlu iechyd ehangach.
- (iv) Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2022 (dros dro) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £22.98 oedd y cyflog fesul awr cymedrig (heb gynnwys goramser) ar gyfer Rheolwyr Practis Gofal Iechyd.
- (v) Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2022 (dros dro) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £41.44 oedd y cyflog fesul awr cymedrig (heb gynnwys goramser) ar gyfer Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion a oedd yn gweithio yng Nghymru.

88. Yn y tymor hir, disgwylir y bydd unrhyw gostau cyfle sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn cael eu hamsugno gan ddarparwyr gwasanaethau'r GIG fel rhan o'u gwaith arferol, gan gynnwys amser staff sy'n cael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, gan leihau unrhyw faich ychwanegol. Rhagwelir y bydd darparwyr gwasanaethau'r GIG yn dal i gynnwys yr hyfforddiant hwn yn eu pecynnau hyfforddiant presennol ar gyfer staff, er enghraifft, fel rhan o broses gynefino i staff neu drwy gyfeirio fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yr aelodau.

#### **Gweithredu a chostau gweithredu rheolaidd:**

89. Yn ychwanegol at yr elfennau allweddol uchod, pan fydd angen gweithredu er mwyn cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd yn llwyddiannus, mae'n bosibl y bydd costau atodol eraill.

90. Pan fydd yn bosibl, mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar y prosesau a'r systemau presennol sy'n sail i'r egwyddorion Bod yn Agored **Error! Bookmark not defined.** a Rheoliadau 2011 **Error! Bookmark not defined.**; sydd eisoes wedi ennill eu plwyf yn y gweithdrefnau a'r polisiau sefydliadol presennol.

91. Mae holl ddarparwyr gwasanaethau'r GIG wedi datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei chyflwyno'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisiau a gweithdrefnau i sicrhau bod y newidiadau sy'n angenrheidiol yn sgil cyflwyno'r ddyletswydd yn cael eu cynnwys, eu cronico a'u mabwysiadu drwy drefniadau llywodraethu sefydliadol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau bellach, gyda phob corff GIG yn adrodd ar eu cynlluniau i'r Byrddau Gweithredu. Felly mae'r gost cyfle wedi cael ei hysgwyddo, ac nid yw wedi cael ei chynnwys yn y dadansoddiad hwn.

92. Mae'r amcangyfrif o'r costau rheolaidd a fydd yn deillio o weithredu'r ddyletswydd wedi cael ei nodi isod.

### 93. Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth:

94. Mae'r weithdrefn a nodwyd yn y Rheoliadau Gonestrwydd yn mynnu bod y darparwr yn hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd pan ddaw'n ymwybodol o'r digwyddiad er mwyn rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd beth sydd wedi digwydd yn ôl dealltwriaeth y darparwr, egluro beth fydd yn digwydd nesaf, ymddiheuro a chynnig cymorth, a'i fod wedyn yn rhoi adborth ar ymchwiliadau a'r camau a gymerwyd i atal hynny rhag digwydd eto, ac yn cadw cofnodion.

95. Dylai darparwyr gwasanaethau'r GIG fod yn cymryd rhai o'r camau hyn yn barod er mwyn cydymffurfio â'r egwyddorion 'Bod yn Agored' a Rheoliadau 2011 **Error! Bookmark not defined.** Mae'r rheoliadau hyn yn mynnu'r canlynol:

### 96. Hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth:

- Mae Rheoliad 12(7) yn amlinellu dyletswydd bresennol Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal preswyl i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd am 'bryder' (sy'n cynnwys digwyddiad diogelwch claf) pan fydd yr ymchwiliad dechreuol yn penderfynu bod defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef niwed cymedrol neu ddifrifol neu wedi marw. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn berthnasol dim ond pan fydd y corff yn cael ei hysbysu am ddigwyddiad gan aelod o'r staff: ac
- Mae Rheoliad 12(8) yn gwneud darpariaeth i gael eithriad ar gyfer y ddyletswydd yn rheoliad 12(7) mewn achosion pan "na fyddai er budd y claf pe rhoddid gwybod i'r claf am y pryder, neu pe cynhwysid y claf yn yr ymchwiliad i'r pryder" – ond, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dibynnir ar hynny.

### 97. Cefnogaeth:

- Mae Rheoliad 22(4)(b) yn nodi argaeledd gwasanaethau eiriolaeth a chefnogaeth a allai fod o gymorth i'r person dan sylw.

### 98. Egluro beth fydd yn digwydd nesaf:



- Mae Rheoliad 22(4)(a) yn amlinellu bod rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol drafod gyda'r person a hysbysodd y pryder y modd yr ymdrinnir ag ymchwilio i'r pryder, gan gynnwys caniatâd i ddefnyddio cofnodion meddygol.

99. Ar wahân, mae Adran 9 yn y Canllawiau Gweithio i Wella ar gyfer staff y GIG<sup>12</sup> ac Adran 6.3 y Safonau Iechyd a Gofal<sup>13</sup> yn mynnu ar hyn o bryd bod gan ddarparwyr gwasanaethau'r GIG systemau ar waith i sicrhau, pan hysbysir pryderon: y gweithredir arnynt ac ymatebir iddynt mewn modd priodol ac amserol ac yr ymdrinnir â nhw ac ymchwilir iddynt yn agored, yn effeithiol a chan y rhai sydd â sgiliau priodol i wneud hynny.

100. Er bod y ddyletswydd yn adeiladu ar y systemau sefydledig hyn, mewn rhai achosion bydd angen newidiadau er mwyn i'r polisi gael yr effaith a ddymunir. Dyma'r newidiadau:

- bydd y ddyletswydd yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau'r GIG yn bod yn onest â'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd pan fydd mwy nag ychydig o niwed, neu y gallai fod mwy nag ychydig o niwed, ac nad ydynt yn aros am ymchwiliad dechreuol i benderfynu ar briodoldeb – fel sy'n ofynnol o dan 12(7) yn Rheoliadau 2011; a
- bydd y ddyletswydd yn newid natur y broses o gyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd, gan sicrhau bod y darparwr yn gefnogol ac yn argymhell dysgu a newid.

101. Byddai symud y ddyletswydd i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth i gychwyn y broses ymchwilio yn gallu golygu y bydd y ddyletswydd yn cael ei sbarduno'n amlach gan y bydd yn berthnasol i bob digwyddiad pan allai fod mwy nag ychydig o niwed, yn hytrach na dim ond y digwyddiadau hynny lle mae niwed o'r fath a'r hyn a achosodd hynny wedi cael ei gadarnhau. Nid yw'n ymarferol mesur y cynnydd posibl yn gywir, gan fod yr egwyddorion 'Bod yn Agored' presennol yn golygu y dylai defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd fod wedi cael ei hysbysu'n barod bron bob tro pan fydd niwed. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn mynnu bod darparwyr yn cofnodi gwybodaeth ac, yn benodol, yn gwneud a chadw cofnod o'r sgysiau â

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru. Gweithio i Wella - Canllawiau ar ddelio â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011 [Rhynggrwyd] Llywodraeth Cymru; 2013. Ar gael yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%20Guidance%20-%20Dealing%20with%20concerns%20about%20the%20NHS%20-%20Version%203%20-%20CLEAN%20VERSION%20%20-%202020140122.pdf>

<sup>13</sup> Safonau Iechyd a Gofal [Y Rhynggrwyd]. GIG Cymru. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards>

defnyddwyr gwasanaeth yn dilyn digwyddiad, ac felly mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser staff i wneud hynny.

102. Cafodd 5,939 o ddigwyddiadau â mwy nag ychydig o niwed yng Nghymru eu cofnodi drwy Datix rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023 (9 mis). Mae hyn wedi cael ei ehangu i greu ffigur cyfwerth â 12 mis, sef 7,919. Mae Atodiad B yn cynnwys manylion y data, y paramedrau a'r cafeatau. System cofnodi digwyddiadau yw Datix, sydd ar gael i holl ddarparwyr gofal iechyd y GIG yng Nghymru (gan gynnwys gofal sylfaenol). Pan fydd cwyn wedi cael ei gwneud gan berson sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd, a'r gŵyn honno'n cynnwys mwy nag ychydig o niwed, rhagdybiwyd bod hynny wedi cael ei gofnodi ar Datix fel digwyddiad diogelwch claf. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf wedi defnyddio data digwyddiadau gan y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS), nad oedd yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws y maes gofal eilaidd nac o gwbl ym maes gofal sylfaenol. Er bod elfennau o ddiffyg adrodd yn y system Datix newydd o bosibl, mewn cymhariaeth mae'r data'n well o lawer na'r amcangyfrifon blaenorol ac yn cynrychioli'r wybodaeth orau sydd ar gael i amcangyfrif costau.

103. Rydym wedi rhagdybio ei bod yn cymryd 90 munud i wneud a chadw cofnod o sgwrs onest – 60 munud i gael sgwrs â'r person, a 30 munud i ysgrifennu'r llythyr. Gan fod bod yn agored yn ofyniad presennol o dan y rheoliadau Gweithio i Wella, rhagdybir bod rhai elfennau o'r broses hon eisoes yn cael eu cyflawni. Felly, mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar 30 munud sy'n rhan o'r arferion presennol a 60 munud ychwanegol ar gyfer gofynion ysgrifenedig y ddyletswydd gonestrwydd, gan gydnabod y gallai sgyrsiau fod yn fwy cymhleth gyda phobl lle mai'r sefydliad sydd wedi cychwyn y sgwrs honno. Mae hyn yn cael ei gostio ar sail y rhagdybiaeth bod hyn yn cael ei gyflawni gan aelod o'r staff sydd ar y gyfradd fesul awr gymedrig (heb gynnwys goramser) ar gyfer y rheini sydd mewn swyddi rheoli ym maes iechyd (a gyfrifwyd yn unol â Thabl 5, gan gynnwys argostau).

Tabl 6 – cost cyfle i ddarparwyr wrth hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth

Gweithgaredd	Angen mwy o Amser	Amllder	Cyfradd fesul awr	Amcangyfrif o'r gost cyfle
Cost cyfle – cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r cynrychiolydd	60 munud	7,919	£37.15 <sup>(i)</sup>	£294,200

(i)Yn unol â thabl 5 – y cyflog fesul awr cymedrig a'r argostau ar gyfer y rheini sydd mewn swyddi rheoli ym maes iechyd.

**104. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023** yn gwneud rhagor o newidiadau technegol i Reoliadau 2011. Un o'r newidiadau arwyddocaol ychwanegol yw cynnwys yr Awdurdodau Iechyd Arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Rheoliadau 2011. Mae hyn yn ehangu'r trefniadau iawn a Gweithio i Wella i gynnwys holl weithgareddau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gweithgareddau Iechyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd hefyd yn berthnasol i'r ddau sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys yn y costau cyfle ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd newydd. Nid oes gan y naill Awdurdod Iechyd Arbennig na'r llall gyswllt uniongyrchol â chleifion, ac felly rhagdybir na fydd unrhyw lwyth gwaith ychwanegol ymarferol nac, felly, gostau ar wahân i'r costau gweithredu sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y broses o weithredu'r ddyletswydd newydd yn ehangach. Bydd yn rhaid i'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig helpu cyrff eraill y GIG pan fydd ymchwiliad yn galw am hynny, ond mae'r ddau sefydliad eisoes yn cefnogi'r gwaith hwn.

105. Y diwygiad nodedig arall i Reoliadau 2011 yw'r lwfans newydd i gyrff GIG ailystyried achosion ar gyfer iawn os, ar ôl ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y bydd gwybodaeth ychwanegol sy'n golygu y gallai'r digwyddiad fod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer iawn. Os yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymhell bod corff GIG Cymru yn cynnig ffurf o iawn o dan Ran 6 o'r Rheoliadau hyn, caiff y corff GIG Cymru ymgymryd ag ymchwiliad pellach i'r pryder o dan y Rheoliadau hyn dim ond at ddiben penderfynu a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli neu a all fodoli, ac i gynnig ffurf o iawn yn unol ag argymhellion yr Ombwdsmon. Gan mai nifer bach o achosion sy'n cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon, mae'n debygol y bydd nifer yr achosion a fydd yn cael eu hailystyried, ac felly'r cynnydd mewn taliadau iawn, yn isel. Gallai hyn leihau nifer yr achosion lle mae'r Ombwdsmon yn argymhell i gyrff GIG eu bod yn gwneud taliadau digolledu i achwynwyr.

**106. Cymorth i ddarparwyr gofal sylfaenol gan y Bwrdd Iechyd Lleol –** Mae'n bosibl y bydd nifer bach o achosion lle bydd yn rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol roi cymorth a chefnogaeth i ddarparwr gofal sylfaenol mewn perthynas â'r ddyletswydd. Er enghraifft, mewn achosion lle mae angen cymorth ar ddarparwr gofal sylfaenol i ystyried a ddylai'r ddyletswydd gael ei sbarduno, neu os na fyddai gan y darparwr gofal sylfaenol y gallu / yr adnoddau i gynnig cymorth neu gefnogaeth i ddefnyddiwr gwasanaeth sydd wedi cael niwed.

107. Ond, nid yw'r trefniant hwn yn creu unrhyw faich newydd i Fyrddau Iechyd Lleol gan fod rhaid iddynt gydweithio oherwydd y ffaith bod y naill yn comisiynu'r llall. Hefyd, pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, mae Rheoliad 20 o Reoliadau 2011 **Error! Bookmark not defined.** ac Adran 6 o'r Canllawiau Gweithio i Wella<sup>12</sup> yn amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd darparwr gofal sylfaenol yn gwneud cais am gymorth gan Fwrdd Iechyd Lleol i ymchwilio i bryder y mae'r darparwr gofal sylfaenol wedi cael ei hysbysu yn ei gylch.

108. **Cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** – Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn darparu cyngor am dâl i gyrff GIG ynghylch iawn a Rheoliadau 2011. Yn ôl yr amcangyfrif, byddai'r ceisiadau am gyngor ynghylch y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cynyddu'r costau presennol yng nghyswllt ceisiadau am gyngor ynghylch materion Rheoliadau 2011 20% yn ystod y flwyddyn gyntaf (2023-24) ac wedyn 10% mewn blynyddoedd dilynol. Y bras swm presennol a filiwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i gyrff GIG mewn perthynas â materion Gweithio i Wella yw £34,500. Dyma'r amcangyfrif o'r costau i gyrff GIG:

Tabl 7 – costau cael cyngor cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29 (ymlaen)
Cost – y costau cyfreithiol i'w talu i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru am waith y codir tâl arno sy'n ymwneud â cheisiadau am gyngor	£6,900	£3,450	£3,450	£3,450	£3,450	£3,450

109. **Adrodd** – Dan y ddyletswydd, bydd yn rhaid i gyrff GIG adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd a chyhoeddi eu hadroddiadau. Bydd yn rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gasglu'r wybodaeth hon gan y darparwyr gofal sylfaenol hynny y maen nhw'n comisiynu gwasanaethau ganddyn nhw, a chyhoeddi adroddiad cyfun. Bydd yn rhaid i'r adroddiad egluro a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi bod yn berthnasol yn ystod y flwyddyn, pa

mor aml, disgrifio amgylchiadau pob achos yn gryno, a disgrifio'r camau a gymerwyd gan y darparwr gyda'r bwriad o atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

110. Mae nifer o ofynion eisoes ar waith sy'n gwneud cryn dipyn i helpu i gyflawni hyn:

- Mae data eisoes yn cael eu casglu ar nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion cyfredol yn GIG Cymru naill ai drwy systemau rheoli risgiau lleol, gan gynnwys Datix Cymru ac adrodd i Gronfa Risg Cymru drwy ffurflen Datix Cloud IQ (ar gyfer y darparwyr gofal sylfaenol hynny sydd heb fynediad at systemau rheoli risgiau lleol). Mae'r canllawiau'n egluro ystyr "mwy nag ychydig" o niwed a fydd yn sbarduno'r ddyletswydd. Mae'r trothwyon ar gyfer sbarduno'r ddyletswydd yn gydnaws â throthwyon blaenorol NRLS; felly, ni fydd rhaid casglu ac adrodd ar unrhyw wybodaeth nad yw'n cael ei chasglu ar hyn o bryd.
- Yng Nghymru, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu System Datix Cymru er mwyn cynnwys maes i gofnodi a yw proses y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, sydd bellach yn well system ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion, ymysg data eraill. Bydd hyn ar gael i holl Fyrddau Iechyd y GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal sylfaenol. Bydd y datblygiad hwn yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gofal sylfaenol gael mynediad uniongyrchol at system rheoli risgiau lleol i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion. Bydd unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ganlyniad i'r ddyletswydd yn gallu cael eu cynnwys yn y system hon a'u cyflwyno heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru nac i ddarparwyr y GIG.
- Mae rheoliad 51 o Reoliadau 2011 **Error! Bookmark not defined.** yn mynnu bod Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol yn paratoi adroddiad blynyddol am wybodaeth ynghylch pryderon (pan ystyrir bod pryderon yn cynnwys cwynion, digwyddiadau diogelwch cleifion a hawliadau). Yn achos darparwyr gofal sylfaenol, mae hyn yn cynnwys anfon eu hadroddiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol maen nhw wedi ymrwymo i drefniadau ag ef, gan ganiatáu ar gyfer ei gasglu a'i gyhoeddi yn adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella y Bwrdd Iechyd Lleol, a'i ystyried yn Natganiad Ansawdd Blynyddol pob sefydliad.

111. Gan fod data digwyddiadau diogelwch cleifion eisoes yn cael eu casglu a, gan fod darparwyr y GIG eisoes yn gorfod llunio adroddiad blynyddol i fodloni gofynion Gweithio i Wella<sup>12</sup>, mae'n bosibl gweithredu'r trefniadau adrodd sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd heb unrhyw gost ychwanegol.

112. **Newidiadau diwylliannol** – Un o effeithiau'r ddyletswydd fydd bod y corff yn rhoi rhagor o gefnogaeth i ddatblygu diwylliant o fod yn agored ac yn onest, ac yn annog cleifion a staff fel ei gilydd i roi gwybod am ddigwyddiadau a'u hadolygu yn y dyfodol. Felly, bydd y ddyletswydd yn newid pwyslais yr adolygiadau presennol o ddigwyddiadau fel eu bod yn rhoi anogaeth, cefnogaeth ac arweiniad i staff. Mae'n anodd amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â'r newid hwn yn y diwylliant oherwydd y bydd yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni hyn yn amrywio ymysg darparwyr, gan ddibynnu ar ble maen nhw wedi cyrraedd ar hyd eu taith o 'Fod yn Agored' pan fydd pethau'n mynd o'u lle.

113. **Hawliadau a chwynion** – Roedd cyflwyno Gweithio i Wella **Error! Bookmark not defined.** yn 2011 wedi sicrhau bod egwyddorion Gweithio i Wella yn rhan ganolog o GIG Cymru. Cydnabyddir y bydd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd neu eu gofalfwyr eisiau cael gwybod beth ddigwyddodd, derbyn ymddiheuriad a chael sicrwydd y bydd gwersi'n cael eu dysgu pan fydd pethau'n mynd o'u lle. Bydd dyletswydd gonestrwydd yn grymuso'r staff ymhellach i fod yn agored pan fydd pethau'n mynd o'u lle.

114. O ganlyniad i'r dull gweithredu hwn o fod yn agored ac yn onest, yn ogystal â mynediad rhwydd a thegwch yng nghyswllt iawn, mae llai o hawliadau is eu gwerth ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cyrraedd y cam ymgyfreitha yng Nghymru, wrth i bobl ddewis dilyn y broses iawn ar gyfer hawliadau o'r fath<sup>14</sup> yn lle hynny. Os yw sefydliad yn bod yn agored ac yn onest wrth gydnabod niwed, mae cynnig iawn yn llai costus nag ymgyfreitha, sy'n gallu arwain at achosion cyfreithiol hirfaith, a chymhleth ar brydiau. Felly, mae gweithredu cynllun Gweithio i Wella **Error! Bookmark not defined.** wedi arwain at arbedion sylweddol o ran costau, fel achosion is eu gwerth lle mae'r costau'n aml yn drech na'r iawndal. Mae cyflwyno indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer practisau cyffredinol o fis Ebrill 2019 ymlaen wedi ei gwneud yn bosibl i ehangu trefniadau Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG **Error! Bookmark not defined.** i'r elfen hon o ofal sylfaenol.

---

<sup>14</sup> Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Papur wedi'i baratoi ar gyfer Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid y GIG, 2016

115. Byddai bod yn agored yn gallu arwain at arbedion pellach sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd, oherwydd mae'n bosibl y byddai modd osgoi mwy o achosion ymgyfreitha ar gyfer digwyddiadau sydd wedi arwain at niwed. Mae hyn yn wir yn y GIG yn Lloegr, lle mae dyletswydd gonestrwydd yn bodoli ar hyn o bryd, wrth i nifer yr achosion ymgyfreitha ffurfiol leihau o un flwyddyn i'r llall<sup>15</sup>. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur i ba raddau y gallai arbedion posibl fod yn berthnasol, a gallai arwain at fwy o achosion yn dilyn y broses Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG**Error! Bookmark not defined.** os bydd yr ymchwiliad dilynol i'r digwyddiad yn penderfynu bod hynny'n briodol. Dydyn ni ddim yn gwybod beth yw'r arbedion cost hyn gan nad ydynt wedi cael eu meintoli.

116. Er bod y posibilrwydd o fwy o onestrwydd yn arwain at risg y bydd mwy o gostau ymgyfreitha, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw hynny'n debygol iawn<sup>1617</sup>.

### **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:**

117. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fydd yr arolygiaeth sy'n gyfrifol am asesu cydymffurfedd â'r ddyletswydd gonestrwydd ar ran Gweinidogion Cymru. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn rhoi baich ychwanegol ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; yn unol â'i meysydd gwaith eraill, bydd yr arolygiaeth yn blaenoriaethu ei rhaglen arolygu ar sail gwybodaeth, ac felly ni ddisgwylir arolygiadau rheolaidd nac arferol sy'n canolbwyntio ar onestrwydd. Hefyd, mae'n annhebygol iawn y byddai'r arolygiaeth yn ystyried ymateb sefydliad i'r ddyletswydd gonestrwydd ar ei ben ei hun – yn hytrach, byddai'n ystyried hynny fel rhan o adolygiad llywodraethu ehangach. Mae tystiolaeth yn dangos y byddai cyrff nad ydynt yn gweithredu'n onest yn gallu bod yn arwydd o broblemau llywodraethu ehangach. Felly, er y bydd cydymffurfedd â'r ddyletswydd gonestrwydd yn cyfrannu at y darlun cyffredinol ac yn helpu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i asesu lefel y pryderon ynghylch sefydliad penodol, ni fydd yn rhoi unrhyw faich ychwanegol ar yr arolygiaeth o ran costau.

---

<sup>15</sup> NHS Resolution, 2022, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22, ar gael: [Archif Adroddiadau Corfforaethol – NHS Resolution](#), cyrchwyd Chwefror 2023.

<sup>16</sup> Tingle, J. (2022) [Improving patient communication through the duty of candour and shared decision-making | British Journal of Nursing \(magonlinelibrary.com\)](#) British Journal of Nursing, Cyfrol 31, Rhif 14.

<sup>17</sup> Birks, Y., Aspinal, F., Bloor, K. (2018) [UnderstandingDriversOfLitigationInHealthServices.pdf \(york.ac.uk\)](#)

## Rheoliadau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000:

118. Y nod wrth greu dyletswydd gonestrwydd ffurfiol yw bod pob corff GIG yn darparu dull gweithredu ar draws y system ar gyfer gonestrwydd (gwasanaeth gofal cymdeithasol rheoledig, darparwyr gofal iechyd annibynnol rheoledig, a darparwyr y GIG). I gyflawni hyn ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol rheoledig, mae angen diwygio rheoliadau o dan Ddeddf 2000<sup>18</sup>. Bydd hyn yn cael ei gyflawni ar wahân i'r Ddeddf, y Rheoliadau Gonestrwydd a Rheoliadau Diwygiadau 2023, a bydd costau a manteision hyn yn cael eu cyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.

## Crynodeb o'r costau:

119. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau a nodwyd uchod ar gyfer datblygu a chyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, hyfforddiant i staff, a datblygu, dosbarthu ac adolygu canllawiau statudol.

Tabl 8 – cost i Lywodraeth Cymru

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28 ymlaen
Costau Staff Cronfa Risg Cymru (Tabl 1)		74,600				
Cost cyfle – tîm y rhaglen (Tabl 2)		10,800				
Costau Tîm y Rhaglen (Tabl 2)		48,000				
Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd (Tabl 3)	23,500					
Cost cyfle adnewyddu canllawiau statudol (Tabl 20)						£6,100*
<b>Cyfanswm</b>	<b>23,500</b>	<b>133,400</b>				<b>6,100</b>

\*cost i'w hwynebu bob pum mlynedd.

Tabl 9 – costau i gyrrff GIG

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
--	---------	---------	---------	---------	---------	---------

<sup>18</sup> [Deddf Safonau Gofal 2000 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)



Cost cyfle – hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y sefydliad (Tabl 5)	£183,600*	£183,600*				
Cost cyfle i ddarparwyr ar gyfer hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth (Tabl 6)	294,200	294,200	294,200	294,200	294,200	294,200
Cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg (Tabl 7)	6,900	3,450	3,450	3,450	3,450	3,450
<b>Cyfanswm</b>	<b>484,700</b>	<b>481,250</b>	<b>297,650</b>	<b>297,650</b>	<b>297,650</b>	<b>297,650</b>

\*cyfanswm cost cyfle ar gyfer hyfforddiant y GIG yn nhabl 5, 367,200 wedi'i rannu dros 2022-23 a 2023-24 gan ragdybio na fydd yr holl hyfforddiant wedi ei gwblhau cyn mis Ebrill 2023.

120. Yn ychwanegol at yr uchod, mae risg y gallai'r ddyletswydd gryfach wneud i rai o ddarparwyr y GIG sydd eisoes yn gweithredu'n onest gymryd camau ychwanegol diangen a gwneud mwy nag sydd angen er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol newydd. Nid yw'n bosibl meintioli'r risg hon.

## Manteision

### Llywodraeth Cymru:

121. Bydd creu dyletswydd gonestrwydd statudol ar gyfer pob corff GIG yn helpu i greu dull gweithredu system gyfan ac integredig ar gyfer gonestrwydd. Bydd yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn gwella ansawdd gofal yn y gwasanaeth iechyd drwy annog sefydliadau i ddysgu, gan osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.

122. Drwy roi dyletswydd ar gyrff GIG sy'n golygu bod hysbysu defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd yn cael lle blaenllaw, heb i hynny ddibynnu ar ganlyniad ymchwiliad dechreuol i benderfynu a yw hynny'n briodol, mae'r dull gweithredu'n tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar aelod o staff, fel gyda'r ddyletswydd broffesiynol, i gychwyn proses o fod yn onest ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r sefydliad i wneud hynny'n awtomatig – gan newid y diwylliant.

123. Bydd yn helpu i sicrhau sylw i'r rhwystrau rhag datgelu rydym yn gwybod amdanynt – er enghraifft ofn, diwylliant o gyfrinachedd a/neu feio, diffyg hyder

mewn sgiliau cyfathrebu, ofn ypsetio pobl ac amheuaeth bod datgelu yn ffordd effeithiol o wella diwylliant. Hefyd, mae rhoi'r ddyletswydd ar lefel y sefydliad yn lleihau unrhyw ofn sy'n gysylltiedig â sgil-ffeithiau sefydliadol, atebolrwydd cyfreithiol, bai neu ddiffyg atebolrwydd. Yn hytrach na hynny, bydd yn ategu'r rhwymedigaethau proffesiynol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

124. Mae'n cefnogi cyfeiriad polisi dull gweithredu integredig ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â dyheadau Cymru lachach<sup>19</sup>. Hefyd, mae'r ddyletswydd arfaethedig yn rhoi sylw i'r argymhellion yn adolygiadau'r arbenigwyr, ac yn cyflawni ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth **Error! Bookmark not defined.** Felly, mae'r opsiwn hwn yn cyflawni bwriad y polisi.

### **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:**

125. Bydd mynnu bod cyrff GIG yn adrodd yn flynyddol ar y ddyletswydd yn galluogi'r arolygiaeth i ddefnyddio'r wybodaeth i'w helpu i ddeall ac i fonitro gwybodaeth, a phan fydd unrhyw bryderon yn cael eu nodi mae'n bosibl y bydd hynny'n cael ei ystyried o dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Teirochrog Llywodraeth Cymru. Fel darlun cyffredinol o wella ansawdd, byddai'r broses o adrodd yn flynyddol ar onestrwydd yn gallu cael ei chynnwys yn y *Datganiadau Ansawdd Blynyddol* sy'n cael eu paratoi gan Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru. Felly bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys elfen arall o wybodaeth y gall yr arolygiaeth ei defnyddio i greu darlun o brosesau llywodraethu corff. Er enghraifft, cyrff sy'n perfformio'n dda yw'r rheini sy'n bod yn agored ac yn onest pan fydd camgymeriadau'n digwydd, ac yn gallu dangos eu bod wedi dysgu gwersi ac wedi gwella canlyniadau yn sgil hynny.

### **Cyrff GIG:**

126. Mae rhoi dyletswydd gonestrwydd ar gyrff GIG yn cryfhau'r systemau presennol i gefnogi diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw drwy newid ymddygiad – gan fynd i'r afael â'r rhwystrau presennol sy'n atal gonestrwydd. Bydd yn helpu i sicrhau arferion cyson ac arferol lle mae bod yn agored ac yn dryloyw gyda defnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu gofal a'u triniaeth yn dod yn rhan normal o'r diwylliant ar draws y cyrff hyn yng Nghymru – gan gael gwared ar ofn a chwalu unrhyw ddiwylliant o gyfrinachedd a/neu feio.

---

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru. Cymru lachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol [Y Rhyngwyd] 2018. Ar gael yn: <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-mainen.pdf>

127. Bydd yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybod bob amser pan fydd digwyddiadau andwyol – gan eu sicrhau y bydd y problemau a arweiniodd at y digwyddiad yn cael eu datrys, ac y bydd gwersi'n cael eu dysgu i helpu i'w hatal rhag digwydd eto. Bydd hefyd yn helpu i gynnal ffydd y cyhoedd a chleifion yn y gwasanaeth iechyd, ac yn hybu atebolrwydd er mwyn cael systemau mwy diogel. Bydd hefyd yn gwella ansawdd gwasanaethau drwy helpu i ddatblygu diwylliant o ddysgu ar draws gwasanaethau, a grymuso ac ymgysylltu â staff mewn ymdrechion i wella.

128. Nid cosbi yw bwriad y ddyletswydd; yn hytrach na hynny, dylid ei hystyried yn rhywbeth cefnogol i rieni a staff fel ei gilydd, a dylai fod yn ffordd bellach o sicrhau bod y sefydliad yn dysgu ac yn gwella. Nid gweld bai yw bwriad y ddyletswydd, ond bydd yn gwella'r ffordd mae corff yn ymateb pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le'n anfwriadol.

129. Serch hynny, gallai'r cyrff deimlo bod y manylion ychwanegol angenrheidiol (os yw'r weithdrefn gonestrwydd wedi cael ei dilyn) yn eu hadroddiadau blynyddol cyhoeddus yn gwneud drwg i'w henw da o bosibl, ac felly hoelio'u hymdrechion ar sicrhau bod llai o achosion o niwed y mae modd eu hosgoi yn digwydd. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn gweithio fel dull atal, wrth i gyrff geisio gwella ansawdd a dysgu o gamgymeriadau. Hefyd, gallai arwain at gyrff yn gofalu bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno ar ôl digwyddiad, gan helpu i greu'r newid a ddymunir yn y diwylliant. Ond, gallai arwain at gyrff ddim yn bod yn onest wrth adrodd ar gydymffurfio â'r ddyletswydd – rhywbeth a allai ddal sylw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru oherwydd, fel yr eglurwyd yn gynharach, mae cyrff nad ydynt yn gweithredu mewn ffordd onest yn debygol o fod â phroblemau llywodraethu ehangach a fyddai'n creu pryder o ymchwiliadau pellach eraill.

130. Bydd cynnwys manylion y ddyletswydd wrth gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Gweithio i Wella a'r Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn parhau i ddarparu system ar gyfer gwelliant parhaus ar draws y sector drwy alluogi cyrff i ddysgu gan eraill – a fyddai'n cael ei hyrwyddo a'i ystyried drwy rwydweithiau profiad cleifion sydd eisoes yn bodoli. Mae hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau gofal o well ansawdd gan gyrff GIG o ganlyniad i welliannau mewn arferion gweithio, ac o arwain at lai o achosion y byddai modd eu hosgoi.

131. Yn olaf, bydd y darparwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hynny sy'n comisiynu gofal, yn enwedig dros y ffin i Loegr, yn cael y fantais o gael

dyletswydd gonestrwydd sy'n debyg i'r un yn Lloegr Error! Bookmark not defined.. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i gymharu data ar ddigwyddiadau a gofnodwyd o dan y ddyletswydd arfaethedig, gan ychwanegu at sylfaen dystiolaeth comisiynydd wrth ystyried lleoliad addas ar gyfer gofal.

### **Gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:**

132. Er bod eu sefydliadau proffesiynol yn mynnu bod gweithwyr proffesiynol unigol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithredu'n agored ac yn onest, rydym ni am sicrhau bod y sefydliadau maent yn gweithio iddynt yn rhoi cefnogaeth iddynt bob amser i weithredu felly. Mae rhwymedigaethau proffesiynol yn hanfodol, ond nid ydynt yn ddigon ar eu pen eu hunain i sicrhau diwylliant o onestrwydd, felly dyna pam y dylid gosod y ddyletswydd arfaethedig ar lefel y sefydliad<sup>20</sup>. Bydd hyn yn rhoi amgylchedd diogel a chefnogol i staff godi pryderon a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ac ar wahân i hynny bydd yn rhoi hyder i'r cyhoedd eu bod yn cael eu trin â pharch ac fel partneriaid yn eu gofal eu hunain – yn enwedig pan fydd pethau'n mynd o'u lle.

133. Felly byddai'r opsiwn hwn yn cryfhau'r systemau presennol sydd ar waith er mwyn cefnogi bod yn agored ac yn dryloyw. Byddai'n mynnu bod cyrff GIG yn gweithredu i helpu staff i adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch cleifion, ac i atal a mynd i'r afael yn briodol â bwlio, erledigaeth a/neu aflonyddu. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gyrff GIG i gychwyn yr ymchwiliad i drefniadau pryderon, cwynion ac iawn (os yw hynny'n berthnasol), yn hytrach na gadael hynny i aelodau unigol o'r staff. Bydd hyn felly'n creu diwylliant sy'n rhoi cyfle i staff a sefydliadau allu dysgu o'u camgymeriadau, lle maent yn gallu pwysu a mesur yn agored ac yn rhydd pan fydd camgymeriadau'n digwydd, ac yn creu amgylchedd o ddysgu ac o fod yn agored yn hytrach na diwylliant o fwrw bai.

### **Cyhoeddus:**

134. Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, mae'r ffordd y mae sefydliadau'n delio â'r sefyllfaoedd hyn yn bwysig iawn ac yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau pobl a'u perthynas barhaus â'u darparwr gofal. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a chleifion yn y gwasanaeth iechyd drwy sicrhau, pan fydd canlyniad andwyol, bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybod, yn cael ymddiheuriad ac yn cael cynnig cymorth, ac wedyn yn cael

---

<sup>20</sup> Francis, R. Freedom to speak up [Y Rhyngwrdd]. 2015. Ar gael yn: NHS Resolution. Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2017/18 [Y Rhyngwrdd]. NHS Resolution; 2018. Ar gael yn: 9. Safonau Iechyd a Gofal [Y Rhyngwrdd]. GIG Cymru. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards>

adborth ar ymchwiliadau a'r camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn cael y fantais o deimlo bod ei bryderon a'i drallod wedi cael eu cydnabod – lleihau'r trawma mae'n ei deimlo, hyder yn y broses o gyfathrebu'n agored, ac amseroldeb a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir.

135. Bydd hefyd yn sicrhau dull gweithredu ar draws y system ar gyfer gonestrwydd, gan roi sicrwydd i berson y bydd yn cael sylw mewn ffordd agored a gonest os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'i ofal neu ei driniaeth, ni waeth a yw wedi cael gofal gan y GIG, gan ddarparwr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoledig neu gan ddarparwr gofal iechyd annibynnol rheoledig.

## **Crynodeb a'r opsiynau a ffefrir**

### **DYLETSWYDD GONESTRWYDD**

136. Nid yw **Opsiwn 1** yn cynnig unrhyw newid i'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Roedd cyflwyno Gweithio i Wella yn 2011 wedi ymwreiddio egwyddorion 'Bod yn Agored' yn GIG Cymru, gan arwain at newid graddol tuag at bartneriaeth fwy cydgyhyrchiol rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol. Ond gwyddom fod rhwystrau'n dal i fodoli, felly byddai cadw'r *status quo* yn golygu bod cyfle go iawn yn cael ei golli i adeiladu ar lwyddiant Gweithio i Wella. Felly, nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni unrhyw un o'r amcanion polisi.

137. Byddai **Opsiwn 2** yn gwneud Rheoliadau Gonestrwydd a Rheoliadau Diwygiadau 2023. Wrth wneud y Rheoliadau Gonestrwydd, byddai Gweinidogion Cymru hefyd yn gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd ar gyfrif GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig (Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru ond heb gynnwys y rhai trawsffiniol ar wahân i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) a darparwyr gofal sylfaenol) a fyddai'n:

- a. sicrhau bod cleifion yn cael gwybod pan fydd digwyddiadau niweidiol;
- b. hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw yn y gwasanaeth iechyd;
- c. cefnogi gofal i gleifion ac yn gweithredu ymatebion cyson i ddigwyddiadau andwyol ar draws gwasanaethau iechyd;
- d. cynnal ffydd y cyhoedd a chleifion yn y gwasanaeth iechyd, ac yn hybu atebolrwydd er mwyn cael systemau mwy diogel; ac yn

- e. gwella ansawdd gwasanaethau drwy helpu i ddatblygu diwylliant o ddysgu ar draws gwasanaethau, ac yn ymgysylltu â staff mewn ymdrechion i wella.

138. Mae hyn yn helpu i greu dull gweithredu system gyfan/integredig ar gyfer gonestrwydd – ar draws y GIG a'r system iechyd a gofal cymdeithasol a reoleiddir.

139. Er bod costau ynghlwm wrth gyflwyno Opsiwn 2 yn effeithiol, mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar systemau a phrosesau sydd eisoes yn bodoli. I Lywodraeth Cymru, mae'r rhain yn ymwneud â chyfleu'r ddyletswydd yn effeithiol. Cost i gyrff GIG yw'r brif gost a nodwyd, sef y gost cyfle sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol. Ond mae'r gost hon yn debygol o fod yn amherthnasol i'r ddyletswydd arfaethedig, gan y byddai llawer o staff yn ymgymryd â hyfforddiant arall o ryw fath fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol. Ar ben hynny, mae'r costau i gyrff GIG yn cael eu cydbwysu gan arbedion posibl o ganlyniad i leihau nifer yr hawliadau ymglyfreitha, ond mae'n anodd meintoli hyn cyn mynd ati i weithredu.

140. Yn gyffredinol, teimlir bod y dystiolaeth yn dangos yn gryf fanteision Opsiwn 2.

### **Asesiad Cystadleuaeth**

141. Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi cael ei gwblhau. Nid oes disgwyl i'r Rheoliadau effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

142. Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn debygol o gael effaith ar dair marchnad, sef y sector gofal iechyd yng Nghymru, y farchnad gyfreithiol feddygol, a mudiadau trydydd sector sy'n ymgyrchu ar faterion penodol sy'n ymwneud â chleifion neu dros lais cleifion. Ac eithrio'r ffaith bod gan y ddarpariaeth gyhoeddus fonopoli dros y sector gofal iechyd, bach iawn yw'r gwahaniaethau yn y marchnadoedd a gellir darllen yr asesiad isod ar gyfer y cyfan.

Prawf hidlo cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ✓ neu X
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad?	X*
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad?	X*
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad gyda'i gilydd?	X
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau na'i gilydd?	X
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid maint neu nifer y cwmnïau?	X
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu bosibl nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu ar hyn o bryd?	X
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu bosibl nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu ar hyn o bryd?	X
<b>C8:</b> Ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd amlwg yn y sector?	X
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu gallu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	X

\*mae gan y ddarpariaeth gyhoeddus fonopoli dros y ddarpariaeth gofal iechyd yn y DU. Wedi dweud hynny, bydd y ddyletswydd yr un mor berthnasol ar draws holl ddarparwyr gofal iechyd y GIG a darparwyr gofal iechyd nad ydynt yn rhan o'r GIG yng Nghymru, felly ni fydd yn cael effaith anffafriol ar unrhyw ddarparwr unigol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

143. Mae'r Ddeddf yn amlochrog, a bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol i'w gwneud yn bosibl i weithredu mewn nifer o feysydd cysylltiedig i hybu'r broses o ddysgu a sicrhau gwelliannau, ac i atal niwed sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae'r gwerthusiad o'r Rheoliadau wedi cael ei ystyried yn y gwerthusiad ehangach o'r Ddeddf, a chydabyddir yn gyffredinol nad yw mesur ac asesu effaith unigol pob elfen o'r Ddeddf mewn perthynas â'r elfennau eraill yn debygol o fod yn bosibl.

144. Mae'r dull gweithredu a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adeiladu, pan fydd yn bosibl, ar y prosesau cynllunio ac adrodd sydd eisoes yn bodoli er mwyn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer dangos canlyniadau ac effeithiau heb ormod o faich ychwanegol. Bydd y dull hwn yn sail i'r gwaith monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, gan ddefnyddio data gweinyddol ac arolwg a gesglir yn rheolaidd, ynghyd â thystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid allweddol a'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau.

145. Mae Rhaglen Weithredu'r Ddeddf wedi comisiynu a chael yr asesiad gwerthusadwyedd cychwynnol sy'n amlinellu damcaniaethau newid a ffynonellau data a metrigau a awgrymir i fod yn sail i'r gwerthusiad llawn. Roedd yr asesiad gwerthusadwyedd hwn yn ystyried holl elfennau'r Ddeddf, ac mae'n costio £50,000.

146. Bydd y gwerthusiad llawn yn cael ei gomisiynu'n gynnar ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

### **Ystadegau a data iechyd**

147. Bydd gweithgarwch i fonitro'r broses o weithredu'r Ddeddf yn cyd-fynd â gwaith perthnasol arall lle bynnag y bo modd. Felly, bydd data a ddarperir drwy arolygon a gynhelir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn cael eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r ddeddfwriaeth. Ar yr un pryd, efallai y bydd angen ystyried casgliadau data newydd yn ôl yr angen.

### **Data gweinyddol**

148. Yn yr un modd, bydd y data gweinyddol mwyaf perthnasol sydd eisoes wedi cael eu casglu yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. O ran y pynciau a drafodir yn y Ddeddf, mae enghreifftiau o'r ffynonellau data presennol yn cynnwys:

- Data ar nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion cyfredol, sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd drwy'r System Rheoli Pryderon 'Unwaith i Gymru' (Datix) a,



- Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Glaf (PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Glaf (PREMs)<sup>21</sup>.

- Canfyddiadau arolygiadau ac adolygiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

### **Adolygu'r broses weithredu**

149. Bydd y dull amlochrog a amlinellir uchod yn canolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at sicrhau newid ar draws yr ystod o ganlyniadau lle byddai disgwyl iddi wneud gwahaniaeth. Bydd hyn yn cynnwys, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid yn ei 'Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth<sup>22</sup>' yn 2017, ystyried cywirdeb yr amcangyfrif o'r costau, yr arbedion, y manteision a'r anfanteision sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

150. Ond bydd hefyd yn bwysig ategu'r gweithgarwch hwn â thystiolaeth ynghylch sut mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ledled Cymru a rôl partneriaid allweddol yn y broses o gyflawni amcanion y ddeddfwriaeth, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau eraill. Bydd cynnwys penodol gweithgarwch gwerthuso o'r fath yn cael ei ystyried ymhellach yn ystod y misoedd nesaf.

151. Mae costio, monitro a gwerthuso heb fanylion am y cwmpas a'r dulliau a ddefnyddir yn achosi problemau. Ar hyn o bryd, ar sail costau sy'n gysylltiedig â gwerthusiadau ac adolygiadau tebyg a gynhaliwyd yn y gorffennol – gan gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 a Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 – amcangyfrifir mai £250,000 i £300,000 fydd y costau, dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'n bwysig nodi y bydd cyfanswm cost y gwaith hwn yn dibynnu, yn anochel, ar y cydbwysedd rhwng defnyddio a dadansoddi data pwrpasol sydd ar gael fel mater o drefn ac ymchwil ynghylch gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth.

152. Mae rhaglen Weithredu'r Ddeddf wedi comisiynu a chael yr asesiad gwerthusadwyedd cychwynol sy'n amlinellu damcaniaethau newid a ffynonellau data a metrigau a awgrymir i fod yn sail i'r gwerthusiad llawn. Roedd yr asesiad gwerthusadwyedd hwn yn ystyried holl elfennau'r Ddeddf, ac yn costio £50,000.

---

<sup>21</sup> Health in Wales | PROMs, PREMs and Efficiency Programme [Y Rhyngrwyd]. GIG Cymru. [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yn:

<http://www.wales.nhs.uk/promspremsandefficiencyprogramme>

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Cyllid. Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn dilyn ei Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth [Y Rhyngrwyd]. Y Pwyllgor Cyllid; 2017. Ar gael yn: <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11363/gen-ld11363-w.pdf>

153. Bydd y gwerthusiad llawn yn cael ei gomisiynu'n gynnar ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

# Digwyddiadau Diogelwch Cleifion a Gofnodwyd yn Genedlaethol

Mae'r adroddiad isod gan Gronfa Risg Cymru yn nodi'r digwyddiadau diogelwch cleifion a gofnodwyd ar Datix yng Nghymru rhwng 01/04/22 a 31/01/23 (9 mis). Mae'r cyfnod hwn wedi cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth fwyaf cyfredol yn cael ei hystyried, a gan fod yr holl gyrrff GIG yng Nghymru wedi cyflwyno system Datix erbyn 01/04/22. Cyn y dyddiad hwnnw, nid oedd darpariaeth lawn ar draws cyrrff GIG. Felly, mae'r data wedi cael eu hehangu i fod gyfwerth â 12 mis.



## Dyletswydd Gonestrwydd Llywodraeth Cymru

### Data Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Diweddariad 24 Chwefror 2023

Derbyniodd Cronfa Risg Cymru ddata ar ran Llywodraeth Cymru i weld y gyfran o'r digwyddiadau a gofnodwyd a fyddai wedi gallu sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd pe bai mewn grym.

Cysylltodd Cronfa Risg Cymru â Phrif Swyddogion Gweithredol i wneud y cais am ddata dienw gan system Datix Cymru.

Gwnaed cais am ddata ynghylch adroddiadau digwyddiadau rhwng 01/04/22 a 31/01/23, gan ofyn dim ond am ddigwyddiadau lle'r oedd y person dan sylw yn glaf neu'n ddefnyddiwr gwasanaeth. Dewiswyd y cyfnod hwn oherwydd ei fod yn berthnasol i'r adeg pan oedd gan yr holl sefydliadau ddata am ddigwyddiadau yn systemau Datix Cymru yn GIG Cymru.

Cafwyd cymorth gan Dîm Canolog System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OfWCMS) i greu adroddiad rhestru safonol i echdynnu'r data gofynnol ar gyfer system pob sefydliad

Bu Tîm Canolog OfWCMS hefyd yn helpu i lanhau'r data

Cafwyd data gan 12 Corff Iechyd. Cyflwynwyd data gan bob sefydliad yn dilyn y cais i Brif Swyddogion Gweithredol ac ymholiadau pellach.

Dyma'r cyrrff a ddarparodd ddata:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Dadansoddiad data:

Cafodd cyfanswm o **122,626** o **Ddigwyddiadau** eu **cofnodi** ar draws yr 11 corff iechyd rhwng 01/04/22 a 31/01/23 lle'r oedd y person dan sylw yn glaf neu'n ddefnyddiwr gwasanaeth.

O blith y rhain, roedd 5021 (**4.09%**) yn ymwneud â digwyddiad a **oedd wedi digwydd mwy na 90 diwrnod cyn** y dyddiad cofnodi. Mae'n arferol i ddigwyddiadau gael eu cofnodi'n syth ar ôl i'r mater ddod i'r amlwg (a elwir yn ddyddiad dod i wybod), ac mae'n ymddangos bod hyn yn gyfran resymol o ddigwyddiadau blaenorol, sy'n rhoi sicrwydd bod ffynhonnell y data'n ddilys.

Yn ystod adolygiad glanhau, roedd yn ymddangos bod 6185 (**5.04%**) **wedi cau heb gadarnhad o'r radd niwed**, a byddant yn dychwelyd i'r corff iechyd i weithredu arnynt.

Cafodd 75447 (**61.53%**) o'r digwyddiadau a gofnodwyd **eu cau rhwng 01/04/22 a 31/01/23**. Gellir dibynnu ar ddata o'r digwyddiadau hyn gan fod y graddau niwed a gofnodwyd wedi cael eu dilysu yn dilyn adolygiad neu ymchwiliad.

O blith y digwyddiadau wedi'u cau:

Cafodd 268 eu graddio ar ôl ymchwiliad fel rhai a oedd yn cynnwys niwed trychinebus

Cafodd 261 eu graddio ar ôl ymchwiliad fel rhai a oedd yn cynnwys niwed difrifol

Cafodd 5410 eu graddio ar ôl ymchwiliad fel rhai a oedd yn cynnwys niwed cymedrol

Cafodd 42109 eu graddio yn dilyn ymchwiliad fel rhai a oedd yn cynnwys niwed isel

Cafodd 27398 eu graddio yn dilyn ymchwiliad fel rhai a oedd yn cynnwys dim niwed

Mae hyn yn golygu bod 5939 (268+261+5410) (**7.87% o'r digwyddiadau wedi'u cau**) wedi cael eu graddio fel rhai a oedd yn cynnwys **niwed trychinebus, difrifol neu gymedrol**, ac a fyddai'n debygol o fod wedi sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd pe bai mewn grym ar y pryd.

O blith y digwyddiadau wedi'u cau, dyma'r pum math o ddigwyddiad mwyaf cyffredin:

Niwed oherwydd Pwyso, Niwed oherwydd Lleithder (27.70%)

Damwain, Anaf (19.46%)

Ymddygiad (gan gynnwys trais ac ymddygiad ymosodol) (9.34%)

Meddyginiaeth, Hylifau IV (6.22%)

Mynediad, Derbyniad (5.97%)

Atal a Rheoli Heintiau (5.09%)

Triniaeth, Gweithdrefn (4.96%)

Asesiad, Ymchwiliad, Diagnosis (4.84%)

Digwyddiad andwyol yn ymwneud â mamolaeth (3.54%)

Cyfathrebu (1.99%)

### Rhestr o'r byrfoddau

AaGIC – Addysg a Gwella Iechyd Cymru

AfC – Agenda ar gyfer Newid (telerau ac amodau cyflogaeth y GIG, gan gynnwys graddfeydd cyflog)

Cyrff GIG (Ansawdd) – Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig (heb gynnwys awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol)

Cyrff GIG (Gonestrwydd) – Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol mewn perthynas â'u swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â'r gwasanaethau GIG maent yn eu darparu

Deddf 2000 – Deddf Safonau Gofal 2000

Deddf 2006 – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Deddf 2014 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf 2016 – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

GIG – Gwasanaeth Iechyd Gwladol

NRLS – System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu

Rheoliadau 2011 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011

Rheoliadau 2017 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

SCS – Uwch Wasanaeth Sifil

TAW – Treth ar Werth